
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Fynwy

Cyhoeddwyd: Ebrill 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 175A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins a Nick Selwyn o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae cyfeiriad strategol clir y Cyngor yn cael ei yrru ar gyflymder newid sylweddol ond oherwydd gwendidau yn y ffordd mae'n ei herio a'i werthuso ei hun, nid yw bob amser yn cyflawni perfformiad gwell o ran gwasanaethau a chanlyniadau gwell i'r dinasyddion 7

Cymysg yw'r cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu a gwella perfformiad yn 2011-12 7

Mae'r Cyngor yn gwneud rhywfaint o gynnydd yn ei ddull hunanwerthuso ond mae angen iddo ddod yn fwy cyson a chytbwys yn y ffordd mae'n adrodd ar ei berfformiad, yn ei werthuso ac yn rhoi cyfrif amdano 18

Mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad sydd arno i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2012-13. Mae cyfeiriad y Cyngor yn glir ac mae newid yn cael ei yrru'n gyflym 22

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 28

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Fynwy a Chyngor Sir Fynwy 29

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 30

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 32

Atodiad 5
Cynigion ar gyfer gwella 2012-13 34

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir yr adroddiad yn dair prif adran, sy'n cwmpasu'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Yn gyffredinol daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod cyfeiriad strategol clir y Cyngor yn cael ei yrru ar gyflymder newid sylweddol ond oherwydd gwendidau yn y ffordd mae'n ei herio a'i werthuso ei hun, nid yw bob amser yn cyflawni perfformiad gwell o ran gwasanaethau a chanlyniadau gwell i'r dinasyddion.

3 Yn rhan gyntaf ein hadroddiad, rydym yn dod i'r casgliad mai cymysg yw'r cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu a gwella perfformiad yn 2011-12. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd canfuom y canlynol:

- Mae gan y Cyngor ymrwymiad cryf i wella deilliannau addysg i ddysgwyr ond nid yw'r perfformiad cymharol a'r camau gweithredu presennol yn cyflawni'r safonau a ddisgwylir ac mae Estyn wedi barnu bod perfformiad y Cyngor ym maes addysg yn anfoddhaol.
- Gwnaethpwyd cynnydd da wrth ad-drefnu rhai gwasanaethau allweddol i gynorthwyo pobl hŷn fregus ac mae gwaith y gwasanaethau ailalluogi'n cynyddu nifer y bobl hŷn sy'n cael eu helpu i fyw'n annibynnol heb gymorth y Cyngor.
- Mae'r dirwasgiad economaidd presennol yn cyfrannu at gynnydd mewn diweithdra ac mae'r nifer o fusnesau preifat newydd yn Sir Fynwy wedi gostwng er gwaethaf dulliau newydd y Cyngor o greu swyddi a hybu twf busnes.
- Mae'n aneglur a yw gweithgareddau adfywio'r Cyngor yn cyflawni gwelliant i'w ddinasyddion ar hyn o bryd.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da wrth gyflawni gwelliannau ym meysydd rheoli gwastraff, ailgylchu a chasglu sbwriel, er y bu oedi gyda nifer fach o fentrau.
- Mae'r perfformiad wrth brosesu hawliadau Budd-dal Tai yn gwella ond mae'r gwasanaeth yn perfformio ymysg y gwaethaf yng Nghymru.
- Mae'r Cyngor yn gwneud rhywfaint o gynnydd wrth wella ei wasanaethau Cymraeg a bwriedir gwneud mwy o waith yn ystod 2013-14.

4 Yn ail ran ein hadroddiad, rydym yn dod i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud rhywfaint o gynnydd yn ei ddull hunanwerthuso a bod angen iddo ddod yn fwy cyson a chytbwys yn y ffordd mae'n adrodd ar ei berfformiad, yn ei werthuso ac yn rhoi cyfrif amdano. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd canfuom y canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar ei berfformiad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Fodd bynnag, gallai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol ar gyfer rheol ei berfformiad ac adrodd arno, ond mae anghysondebau o ran adrodd ar wasanaethau yn cyfyngu ar ei allu i werthuso ei berfformiad yn gyson mewn ffordd gytbwys.
- Mae strwythur da i adroddiad hunanwerthuso blynyddol y Cyngor er mai cyfyngedig yw'r gwaith asesu ar gamau gweithredu mewn rhai gwasanaethau, sy'n gwanhau atebolrwydd ac yn ei gwneud yn anodd barnu cynnydd ac effaith yn effeithiol.
- Nid yw'r systemau ar gyfer rheoli rhai dangosyddion perfformiad yn drylwyr ac mae dibynadwyedd y data wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad sydd arno i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2012-13. Mae cyfeiriad y Cyngor yn glir ac mae newid yn cael ei yrru'n gyflym. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac wedi cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r meysydd ar gyfer gwella a nodasom. Mae'r systemau sydd ar waith i gydgysylltu a rheoli'r canfyddiadau o rywfaint o'n gwaith yn cael eu cryfhau.
- Mae gan y Cyngor hanes da o lwyddo o ran cynllunio ariannol ac ymdopi gyda llai o arian ac mae ei barodrwydd i arloesi a herio ffyrdd traddodiadol o weithio yn ei gynorthwyo i foderneiddio'r ffordd mae'n gweithio. Mae cyfyngiadau ar gyllid cyfalaf yn anodd o hyd ac mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â diffyg ar gyllideb 2012-13.
- Mae gan bartneriaid ymrwymiad cryf i weledigaeth Rhaglen Eiddilwch Gwent ac wedi creu fframwaith rheoli rhaglen gadarn i fod yn sylfaen iddi. Mae Rhaglen Eiddilwch Gwent yng nghamau cynnar ei gweithredu ac mae heriau o hyd i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, i newid ymddygiadau hirsefydlog ac i ddangos ei heffaith.
- Mae Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De Ddwyrain Cymru wedi cael ei greu ac mae'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad mewn ysgolion.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ar dudalen 2 fe welwch esboniad byr o'r hyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae cyfeiriad strategol clir y Cyngor yn cael ei yrru ar gyflymder newid sylweddol ond oherwydd gwendidau yn y ffordd mae'n ei herio a'i werthuso ei hun, nid yw bob amser yn cyflawni perfformiad gwell o ran gwasanaethau a chanlyniadau gwell i'r dinasyddion

### Cymysg yw'r cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu a gwella perfformiad yn 2011-12

11 Mae'r Cyngor wedi gosod tair blaenoriaeth strategol iddo ef ei hun: gwella ysgolion; amddiffyn pobl agored i newid; a chefnogi menter, creu swyddi ac entrepreneuriaeth. Yn 2011, pennodd y Cyngor hefyd bump o ganlyniadau poblogaeth sy'n mynegi'n gliriach yr hyn mae'n ceisio ei wella i ddinasyddion a chymunedau yn Sir Fynwy o dan y tri maes blaenoriaethol hyn, sef bod pobl:

- yn byw'n ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag niwed;
- yn byw bywydau iach a chyflawn;
- yn cael budd o addysg, hyfforddiant a datblygu sgiliau;
- yn cael budd o economi sy'n ffynnu ac sy'n cefnogi menter a thwf cynaliadwy; ac
- yn cael budd o amgylchedd sy'n amrywiol, yn fywiog ac yn gynaliadwy.

12 Isod rhoddwn ddadansoddiad cryno o ba mor dda mae'r Cyngor yn perfformio wrth gyflawni gwelliant yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

### Mae gan y Cyngor ymrwymiad cryf i wella deilliannau addysg i ddysgwyr ond nid yw'r perfformiad cymharol a'r camau gweithredu presennol yn cyflawni'r safonau a ddisgwylir ac mae Estyn wedi barnu bod perfformiad y Cyngor ym maes addysg yn anfoddhaol

13 O ran gwella ysgolion yn 2011-12, roedd y Cyngor yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu arferion addysgu a dysgu ac adeiladu seilwaith TGCh modern yn yr ysgolion i ddarparu'r amgylchedd dysgu gorau ac yn y pen draw y cyfleoedd bywyd gorau i bobl ifanc a phlant. Mae cynnydd wedi cael ei wneud mewn nifer o fentrau a ddatblygwyd gan y Cyngor, gan gynnwys gweithredu'r rhaglen Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu. Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â ffactorau sy'n dal plant yn ôl rhag dysgu yn eu lleoliad yn ogystal â phlant sydd â phroblemau ymddygiad neu bresenoldeb. Yn yr un modd mae ymatebion amlasiantaethol i fwlio a seiberfwlio wedi cael eu cyflwyno ac mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi mewn gwella ei ystâd ysgolion.

14 Yn nhermau'r perfformiad yn erbyn ystod o ddangosyddion Cyfnodau Allweddol[1] canfuom:

- gostyngiad bach yng nghyfran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 4+ yn Saesneg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, gan ddisgyn o 85.7 y cant yn 2009-10 i 85.2 y cant yn 2011-12;

1 Cyfnod Allweddol yw cyfnod yn system addysg y wladwriaeth lle gosodir y wybodaeth addysgol a ddisgwylir gan fyfyrwyr. Mae union ddiffiniad pob un o'r pedwar prif Gyfnod Allweddol yn gysylltiedig ag oed, ac maent yn cynnwys pob disgybl o oed penodol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

- gwelliant yng nghanran perfformiad disgyblion ar lefel 4+ mewn Mathemateg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2; gwellodd y perfformiad o 86.3 y cant i 88.5 y cant;
- cynnydd mawr yng nghanran perfformiad disgyblion ar drothwy lefel 2 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4; cododd o 60.8 y cant yn 2009-10 i 71.2 y cant yn 2011 12; a
- gwelliant yng nghanran perfformiad disgyblion yn y dangosydd pynciau craidd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3; cododd o 70.9 y cant yn 2009-10 i 71.5 y cant yn 2011-12.

15 Rydym yn cydweithio'n agos ag Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) sy'n arolygu pa mor dda mae cynghorau'n helpu plant a phobl ifanc ddatblygu'u sgiliau. Mae gan Estyn rhaglen reolaidd o arolygiadau o wasanaethau cyn ysgol, fel meithrinfeydd, ysgolion, colegau a gwasanaethau ieuenctid. Rydym yn cydweithio ag Estyn i asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn cefnogi pob un o'r gwasanaethau hyn i helpu plant a phobl ifanc ddatblygu.

16 Arolygodd Estyn wasanaethau addysg yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc ym mis Rhagfyr 2012. Barnodd Estyn fod ansawdd y gwasanaethau presennol yn anfoddhaol. Canfu Estyn nad yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion a bod y perfformiad o ran cyrhaeddiad yn ysgolion uwchradd Sir Fynwy, o'i gymharu ag ysgolion tebyg yn ôl hawl i brydau ysgol am ddim, wedi bod cryn dipyn yn is na'r cyfartaledd yn y pedair blynedd diwethaf.

17 Mae cynnydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd cryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ac mae nifer y dyddiau sy'n cael eu colli ar gyfartaledd oherwydd gwaharddiadau am gyfnod penodol yn rhy fawr. Nid yw trefniadau'r Cyngor i gefnogi a herio ysgolion yn ddigon trylwyr ac nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau ac mae cynllunio strategol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn wan.

18 Canfu Estyn hefyd fod presenoldeb dysgwyr yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd wedi bod uwchben cyfartaledd Cymru dros y pedair blynedd diwethaf ac mae dysgwyr yn cael budd o ystod eang o wasanaethau cymorth ieuenctid da ar draws yr awdurdod. Hefyd, mae cyllidebau ysgolion yn cael eu hamddiffyn yn dda ac mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da wrth godi canran y gwariant cyllidebol a ddirprwyir i ysgolion.

19 Barnodd Estyn hefyd fod gan y Cyngor ragolygon gwella anfoddhaol. Mae diffyg capasiti strategol a gweithredol yn y gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc wedi cyfrannu at y diffyg gwelliant mewn meysydd allweddol. Canfu Estyn nad yw aelodau etholedig yn cael y wybodaeth maent ei hangen i ddal gwasanaethau'n atebol yn llawn ac nad yw'r prosesau hunanwerthuso'n ddigon trylwyr ac, yn y gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc, nad yw'r trefniadau cynllunio corfforaethol yn effeithiol.

20 Nid yw swyddogion y Cyngor yn defnyddio prosesau sicrhau ansawdd nac yn gwerthuso data'n ddigon cyson i wybod lle dylid cyfeirio adnoddau a gwasanaethau er mwyn cyflawni'r deilliannau gorau i'w ddysgwyr. Yn yr un modd, nid yw'r prosesau rheoli perfformiad yn cael eu gweithredu'n gyson yn y gyfarwyddiaeth ac nid yw arweinwyr a rheolwyr bobl amser yn gallu cyfarwyddo staff neu eu dal yn atebol yn ddigon da. Canfu Estyn hefyd fod ymrwymiad y Cyngor i addysg a gwella deilliannau i ddysgwyr a'u cymunedau yn cael ei arwain yn dda gan arweinydd y Cyngor a chan y prif weithredwr a bod y Cyngor yn cymryd rhan yn dda mewn amrywiaeth o bartneriaethau strategol.

21 Er y gall y Cyngor ddangos cynnydd wrth gyflawni'r camau gweithredu y rhoddodd flaenoriaeth i'w cyflawni yn 2011-12, mae deilliannau addysg i blant a phobl Ifanc yn Sir Fynwy, o'u cymharu yn ôl hawl i brydau ysgol am ddim, wedi bod cryn dipyn yn is na'r cyfartaledd yn y pedair blynedd diwethaf. Mae effaith ei weithgarwch wrth wella safonau addysgol a chyflawni'r lefelau cyrhaeddiad a ddisgwylir yn wael, felly.

22 Cyhoeddodd Estyn ei Adroddiad Arolygu ar 20 Chwefror 2013 ac mae wedi gwneud cyfres o argymhellion i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy.

## Gwnaethpwyd cynnydd da wrth ad-drefnu rhai gwasanaethau allweddol i gynorthwyo pobl hŷn fregus ac mae gwaith y gwasanaethau ailalluogi'n cynyddu nifer y bobl hŷn sy'n cael eu helpu i fyw'n annibynnol heb gymorth y Cyngor

23 Blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer gofal cymdeithasol fu dod ag iechyd, gofal cymdeithasol ac asiantaethau annibynnol ynghyd mewn un model o wasanaethau gofal yn y gymuned o dan fantell Rhaglen Eiddilwch Gwent. Ar gyfer 2011-12 rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth i ystod o gamau gweithredu oedd yn canolbwyntio ar gyflwyno timau ymateb cyflym o nyrsys ardal, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr cartref yn cydweithio i atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty ac i alluogi pobl fregus i fwy'n annibynnol yn y gymuned.

24 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei raglen o gamau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon. Cafodd un man mynediad ar gyfer atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Eiddilwch gan bob gweithiwr proffesiynol, gan gynnwys ymarferwyr cyffredinol, ei lansio ym mis Ebrill 2011. Mae'r un man mynediad wedi ei gwneud yn bosibl dynodi pobl eiddil i'r aelod mwyaf priodol o'r staff, waeth a yw'n gweithio i'r GIG neu i'r Cyngor, i ddarparu cymorth, gofal a help i aros yn annibynnol. Yn yr un modd, mae gwasanaethau nyrsio cymunedol a nyrsio cyflyrau hirdymor bellach yn rhan o dimau gwasanaethau integredig yn Sir Fynwy ac mae'r holl weithwyr proffesiynol yn gweithio o dan un rheolwr. Mae gwasanaeth ymateb cyflym wedi cael ei greu sy'n

golygu bod nyrsys a staff yn gallu rhoi sylw i achosion mewn llai na phedair awr, gan leihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty mae modd eu hosgoi.

25 Cafodd mwy na 1,500 o bobl wasanaeth o dan y model Eiddilwch yn 2011-12. Roedd hyn yn cynnwys 700 o bobl a gafodd wasanaethau Ailalluogi, yr oedd 51 y cant ohonynt yn gwbl annibynnol ar ddiwedd yr ymyrraeth chwe wythnos. Yn y pen draw nid oedd y rhain angen unrhyw ofal hirdymor ac roeddent yn gallu mynd yn ôl at fyw eu bywydau eu hunain. Mae'r Cyngor yn dweud bod y rhan fwyaf o'r bobl hyn yn aros yn annibynnol am 30 mis a mwy.

26 Yn nhermau perfformiad y Cyngor yn erbyn data cymharol cenedlaethol, cymysg yw'r darlun o'r gwelliant:

- Mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, am bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn, wedi gostwng o 4.68 yn 2010-11 i 2.42 yn 2011-12. Mae'r gyfran hon yn uwch o hyd na'r perfformiad a gofnodwyd yn 2009-10, sef 0.72. Y Cyngor yw'r perfformiwr gorau ond 8 o'r 22 cyngor yng Nghymru yn 2011-12 ac mae ei berfformiad yn well na chyfartaledd Cymru, sef 5.03.
- Mae nifer y bobl hŷn a gafodd eu cynorthwyo i fyw yn eu cartrefi, am bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn, wedi gostwng o 71.07 yn 2010-11 i 67.3 yn 2011-12 gan fod mwy o bobl bellach yn cael eu helpu i fyw'n annibynnol heb gymorth parhaus gan y Cyngor.
- Cyfran y boblogaeth sydd mewn gofal preswyl a nyrsio a ariennir gan y Cyngor yw'r orau yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn cofnodi bod 12.9 o bobl hŷn am bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn mewn cartrefi gofal yn 2011-12. Mae'r perfformiad hwn yn well na chyfartaledd Cymru sef 21.35.
- Yn 2011-12 gwariodd y Cyngor y swm lleiaf y pen o wariant refeniw ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

27 Cyhoeddodd AGGCC ei *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad ar gyfer 2011-2012* ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn Sir Fynwy ym mis Hydref 2012. Mae'r adroddiad gwerthuso'n nodi nifer o feysydd lle cafwyd cynnydd yn ogystal â meysydd ar gyfer gwelliant neu ddatblygiad. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan AGGCC (http://wales.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/publications/lareviews/20112/?skip=1&lang=cy). Mae'r paragraffau canlynol yn dod o'r adroddiad.

28 'Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir Fynwy gryfderau arwyddocaol mewn sawl maes. Mae'r Cyngor yn realistig ynghylch yr angen i reoli'r galw cynyddol oherwydd pwysau demograffig trwy ymyriadau cynnar. Mae'r dulliau hyn mewn gwahanol gamau yn eu datblygiad, a'r her fydd parhau i gyflawni gwell canlyniadau o fewn cyllidebau cyfyngedig.

29 Cynhaliwyd arolygiad gan AGGCC o wasanaethau i blant ac oedolion ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2011 ac adroddwyd arno ym mis Mai 2012. Canfu'r arolygiad fod y Cyngor, yn gorfforaethol, yn blaenoriaethu cymorth ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Mae staff a rheolwyr ar bob lefel yn rhoi dull ar waith sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac yn gwneud hynny'n gyson. Darperir gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n hybu pennaf les y defnyddiwr gwasanaeth, boed yn blentyn, yn berson ifanc neu'n oedolyn. Mae'r Prif Weithredwr yn ymgorffori'r gwerthoedd o ganolbwyntio ar unigolion y mae'n eu disgwyl gan holl staff y cyngor, gan gynnwys staff gwasanaethau cymdeithasol.

30 Mae'r Cyngor yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth lle bynnag y mae hynny'n arwain at well canlyniadau. Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol amryw o bartneriaethau cydweithredol sy'n cynyddu dewis ac annog annibyniaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac i'w teuluoedd. Mae hyn i'w weld yn dda ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant. Er gwaethaf y dadansoddi cyffredinol ar fapio anghenion demograffig, nid yw anghenion sydd heb eu bodloni yn cael eu casglu mewn modd systematig, o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Plant na Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion. Yn gyffredinol, nid yw gwybodaeth ddienw yn deillio o asesiadau unigol a chynlluniau gofal yn cael ei chrynhoi i gefnogi comisiynu strategol, sy'n gyfle wedi'i golli.

31 Mae staff rheng flaen Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant naill ai wedi symud neu ar fin symud i leoliadau gwahanol er mwyn cefnogi amcanion y gwasanaeth yn fwy effeithiol. Ynghyd â gweithio ystwyth, lle mae technoleg yn galluogi pobl i weithio gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth lle bynnag y maent, dylai hyn arwain at ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau. Fodd bynnag, mae adborth gan rai aelodau o staff yn awgrymu bod hyn hefyd wedi creu rhai tensiynau ychwanegol y mae'n rhaid eu rheoli. Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau ynghylch colli cyfleoedd i rannu ymarfer yn anffurfiol gyda'u cydweithwyr. Bydd angen i'r uwch dîm rheoli sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol.

32 Mae staff Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant yn gweithio mewn amgylchedd prysur. Mae'r uwch reolwyr yn adrodd bod Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant yn ystyried ailgynllunio systemau er mwyn sicrhau bod ganddynt lifau gwaith effeithiol, bod trothwyon yn gyson, a'r staff yn gallu canolbwyntio ar elfennau ymarfer allweddol. Mae gan yr adran bolisi ar oruchwyliaeth. Roedd y mwyafrif o'r staff yn nodi eu gwerthfawrogiad o'r cymorth maent yn ei gael gan reolwyr o ran goruchwyliaeth. Er hynny, mae amrywiadau yn y modd y cofnodir goruchwyliaeth ac mae anghysondeb yn y modd y rhoddwyd y prosesau monitro ar waith. At ei gilydd, roedd staff Gwasanaethau Oedolion wedi'u harfarnu'n flynyddol, ond roedd hynny'n llawer llai tebygol o fod wedi digwydd o fewn Gwasanaethau Plant. Gellid tanseilio'r

cynnydd rhagorol a wnaed ar recriwtio a chadw staff mewn sefyllfa lle mae'r galw yn gyson yn drech na'r gallu i gyflenwi.'

33 Mae AGGCC yn nodi y byddai gwasanaethau mwy targededig i ofalwyr unigol yn gwella canlyniadau unigol a dangosyddion perfformiad ac, er bod yna beth ffordd i fynd o hyd, yn enwedig ynghylch datblygu systemau rheoli perfformiad trylwyr i fesur y canlyniadau yn deillio o Raglen Eiddilwch Gwent, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd craidd fel y'u mesurir gan ddangosyddion perfformiad Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith pellach sydd yn yr arfaeth gan bob cyngor gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan o dan Raglen Eiddilwch Gwent yn galluogi'r Cyngor i ddatblygu mesurau sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau er mwyn barnu ei berfformiad yn well.

## Mae'r dirwasgiad economaidd presennol yn cyfrannu at gynnydd mewn diweithdra ac mae'r nifer o fusnesau preifat newydd yn Sir Fynwy wedi gostwng er gwaethaf dulliau newydd y Cyngor o greu swyddi a hybu twf busnes

34 Mae cynyddu cyflogaeth yn weithgarwch priodol a phwysig i'r Cyngor ganolbwyntio arno yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Un o amcanion y Cyngor ar gyfer gwella yw hybu ffyniant trwy gefnogi busnesau sy'n bodoli eisoes a busnesau newydd sy'n dechrau, a hyrwyddo mewnfuddsoddi. Yn 2011-12 rhoddodd y Cyngor nifer o fentrau newydd ar waith i hybu a chefnogi gweithgarwch datblygu economaidd, gan gynnwys Menter Sir Fynwy, creu cwmni buddiannau cymunedol[2] ac wythnos *Back 2 Business*[3].

35 Yn yr un modd mae'r Cyngor wedi cyflwyno 'Digital Deal' ac mae'n cyflenwi rhaglen o hyfforddiant seiliedig ar waith sy'n darparu lleoliadau prentisiaethau, llwybrau i gyflogaeth a hyfforddeiaethau. Mewn rhai meysydd, fodd bynnag, ni wneir yn glir sut mae rhywfaint o weithgarwch y Cyngor – adolygu canolfannau croeso, er enghraifft – wedi cyfrannu ar nod trosfwaol creu cyflogaeth a hybu mewnfuddsoddi. Nid yw unrhyw ddata perfformiad yn cael eu hadrodd yn benodol er mwyn barnu sut mae hyn yn cyfrannu at welliant.

2 Cyflwynwyd cwmni buddiannau cymunedol yn y Deyrnas Unedig yn 2005 ar gyfer mentrau cymdeithasol sydd eisiau defnyddio eu helw a'u asedau er lles y cyhoedd. Creodd y Cyngor gwmni buddiannau cymdeithasol yn 2011 o'r enw MC2.

3 Roedd wythnos Back 2 Business yn ddigwyddiad a gynhaliwyd gan y Cyngor ym mis Mehefin 2011 oedd â'r nod o hybu busnes ac entrepreneuriaeth lleol.

36 O’r naw mesur llwyddiant a ddefnyddir i farnu pa mor dda mae’r Cyngor yn perfformio o dan yr amcan gwella hwn, adroddodd pum mesur welliant yn y perfformiad ac adroddodd tri dirywiad, ac rydym wedi disgrifio un mesur fel anghywir. Yn gadarnhaol, bu cynnydd yn nifer y trigolion mewn cyflogaeth, a gododd o 40,100 yn 2009-10 i 42,000 yn 2011-12, ac yn yr un modd mae cyfran y boblogaeth o oedran gwaith wedi codi o 71.6 y cant i 74.1 y cant dros yr un cyfnod.

37 Rydym yn cydnabod bod y wasgfa gredyd fyd-eang sy’n gwaethygu a’r dirwasgiad economaidd yn debygol o gael effaith ar allu cynghorau i greu a chynnal swyddi. Mae’r perfformiad yn erbyn data cymharol cenedlaethol eraill yn dangos bod canran y boblogaeth o oedran gwaith sy’n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn Sir Fynwy hefyd wedi cynyddu, gan godi o 2.2 y cant yn 2010-11 i 3 y cant yn 2011-12. Yn yr un modd, cododd canran y bobl ifanc 18–24 oed oedd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith o 6.5 y cant i 9.5 y cant yn yr un cyfnod. Mae nifer trigolion Sir Fynwy sy’n hawlio budd-daliadau cysylltiedig â diweithdra hefyd wedi codi o 1,131 ym mis Ebrill 2011 i 1,533 ym mis Ebrill 2012. Yn gymesur, mae hyn yn golygu bod diweithdra wedi codi 0.8 y cant rhwng 2010-11 a 2011-12, gan godi o 2.1 y cant i 2.9 y cant. Er hynny, mae Sir Fynwy o hyd yn is na chyfartaledd Cymru o ran diweithdra, sef 4 y cant, ac roedd ganddi’r nifer isaf ond tri o hawlwyr yng Nghymru ym mis Ebrill 2012. Mae canran y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi gostwng ychydig bach o 3.9 y cant i 3.8 y cant rhwng 2010-11 a 2011-12.

38 Mae’r perfformiad o ran cefnogi busnesau sy’n dechrau yn awgrymu y cafwyd llai o welliant yn 2011-12. Mae’r Cyngor yn dweud ei fod wedi cefnogi 57 o fusnesau oedd yn dechrau ond canfu ein harchwiliad o’r data sylfaenol nad oedd yr holl wybodaeth berthnasol wedi’i chynnwys ar gyfer pob un o’r cwmnïau a restrwyd fel y rhai a gafodd gefnogaeth gan y Cyngor ac felly dywedwyd bod y mesur hwn yn anghywir. Mae data cenedlaethol cymaradwy a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn dangos bod nifer y busnesau oedd wedi’u cofrestru ar gyfer TAW a/neu PAYE yn y sir wedi parhau i ostwng o 3,990 yn 2009-10, i 3,910 yn 2010-11, a 3,855 oedd y nifer yn 2011-12. Yn gymesur, mae hwn yn ostyngiad o 3.4 y cant.

39 Mae Mynegai Cystadleurwydd y Deyrnas Unedig[4] yn ffordd dda o farnu pa mor dda mae cynghorau, rhanbarthau a gwledydd yn y Deyrnas Unedig yn perfformio wrth ddenu buddsoddiad sector preifat newydd yn ogystal â chynorthwyo busnesau sy’n bodoli eisoes i ffynnu. Oherwydd bod y Mynegai yn cael ei gyhoeddi bob dwy flynedd nid oes data ar gael i wneud asesiad ar gyfer 2011-12. Yn 2010 roedd Sir Fynwy yn y 160fed safle o’r 379 o gynghorau a hi oedd yr ardal yn y sefyllfa orau ar ôl Caerdydd yng Nghymru. Roedd wedi syrthio 24 o

4 Cafodd Mynegai Cystadleurwydd y Deyrnas Unedig ei gyflwyno a’i gyhoeddi am y tro cyntaf yn 2000 gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Mae’n meincnodi cystadleurwydd rhanbarthau ac ardaloedd y Deyrnas Unedig. Mae Mynegai Cystadleurwydd y Deyrnas Unedig wedi cael ei gynllunio fel mesur integredig o gystadleurwydd, gan ganolbwyntio ar ddatblygiad a chynaliadwyedd busnesau a lles economaidd unigolion.

5 Experian, Understanding Resilience: Wales Comparator Analysis 2012.

safleoedd o 136 yn 2008. O'i chymharu, Cymru yw'r rhanbarth lleiaf cystadleuol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cael ei gadarnhau hefyd mewn ymchwil ddiweddar gan Experian sy'n nodi mai Sir Fynwy yw'r sir fwyaf cydnerth yn economaidd yng Nghymru[5].

## Mae'n aneglur a yw gweithgareddau adfywio'r Cyngor yn cyflawni gwelliant i'w ddinasyddion ar hyn o bryd

40 Mae adfywio yn chwarae rhan ganolog wrth gynllunio a sicrhau economi ffyniannus, gynaliadwy. Mae polisïau adfywio'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau integredig sydd â'r nod o wrthdroi dirywiad economaidd, cymdeithasol a ffisegol er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus i gymunedau a dinasyddion. Un o'r blaenoriaethau allweddol i'r Cyngor yw adfywio'r pedair prif dref yn Sir Fynwy - Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy.

41 Yn 2011-12 canolbwyntiodd y Cyngor ei weithgarwch adfywio ar nifer o feysydd, gan gynnwys:

- datblygu cyfres o gynlluniau, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) sy'n dod i'r amlwg, Cynllun Total Place Glannau Hafren, a Chynllun Busnes ar gyfer Neuadd y Sir yn Sir Fynwy;
- cyflawni gwaith ynni effeithlonrwydd ar gartrefi mewn gwahanol gymunedau yn Sir Fynwy gan ddefnyddio er enghraifft y Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned a defnyddio adnoddau Arbed[6]; a
- chyfres o brosiectau datblygu gan gynnwys prosiect tyrbin gwynt Llanelli Hill a datblygu safle cyfagos i Ysgol Cil-y-coed.

42 Data cymharol cenedlaethol cyfyngedig sydd i farnu perfformiad y gweithgarwch adfywio ac mae rhaid defnyddio data perfformiad lleol y Cyngor gan fwyaf i bennu'r gwelliant. Ar gyfer 2011-12 mae'r Cyngor wedi barnu ei lwyddiant yn erbyn pum mesur oedd yn ymdrin â: pherfformiad o dan gynllun Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned; buddsoddiad a sicrhawyd trwy ei gynlluniau Total Place; cyfleoedd am hyfforddiant a chyflogaeth a ddarparwyd i bobl; buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni; a'r nifer o bobl oedd mewn tlodi tanwydd.

43 Mae'r perfformiad yn erbyn y mesurau hyn yn awgrymu mai gwelliant cyfyngedig a gafwyd yn 2011-12. Canfuom nad oedd y Cyngor wedi sicrhau unrhyw arian trwy ei gynlluniau Total Place a bod y gweithgarwch y tu ôl i'r targed. Roedd y perfformiad a gofnodwyd yn erbyn y targedau ar gyfer gwaith effeithlonrwydd ynni a darparu cyfleodd am hyfforddiant a chyflogaeth cryn dipyn o dan y lefelau a ragwelwyd ac nid yw'r holl weithgarwch yn cael ei gofnodi. Hefyd disgrifiasom y mesurau yn ymwneud â nifer y cartrefi a gafodd eu hasesu o dan gynllun y Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned a nifer y bobl mewn tlodi tanwydd yn Overmonnow – lle roedd y Cyngor yn canolbwyntio ei weithgarwch gwella – fel anghywir. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth y Cyngor am berfformiad yn gywir a'i fod yn cofnodi perfformiad gwell

6 Rhaglen buddsoddi strategol mewn perfformiad ynni yw ARBED a sefydlwyd yn 2009 i sicrhau manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i Gymru a chydgysylltu buddsoddi mewn perfformiad ynni cartrefi yng Nghymru.

na'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd. Ers hynny mae'r Cyngor wedi adolygu'r data hyn ac mae'n mynd i'r afael â'r ffordd mae'n casglu ac adrodd ar wybodaeth er mwyn sicrhau y cesglir ac yr adroddir ar berfformiad yn gywir yn y dyfodol

44 Hefyd mae'r Cyngor yn adrodd ar ystod o brosiectau eraill ar gyfer 2011-12, megis datblygu Cynllun Busnes Neuadd y Sir, ond nid yw'n dangos pa welliant i'r dinasyddion a gafwyd o ganlyniad i'r gweithgarwch hwn. Mae'r Cyngor hefyd yn cyfeirio at weithgarwch sydd yn hanfodol anghyflawn ac o ganlyniad nid oes modd mesur y perfformiad a gwelliant cyfredol. Mae hyn yn cynnwys y CDLl, prosiect tyrbin gwynt Llanelli Hill, a'r gwaith i adfywio tir yng Nghil-y-coed.

45 Rydym yn cydnabod y gall gymryd amser hir i gyflawni gwaith adfywio, oherwydd ei natur, ac nid oes modd bob amser dangos buddion gweithgarwch ar unwaith. Mae'n bwysig felly bod gan y Cyngor fesurau canlyniadau priodol ar waith sy'n galluogi asesiad hirdymor o effaith ei waith.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da wrth gyflawni gwelliannau ym meysydd rheoli gwastraff, ailgylchu a chasglu sbwriel, er y bu oedi gyda nifer fach o fentrau

46 Llwyddodd y Cyngor i roi ar waith gwasanaethau casglu sbwriel bob pythefnos a chasglu deunyddiau compostio bwyd ac ailgylchu sych bob wythnos. Darperir y gwasanaethau hyn i 38,500 o gartrefi yn y Sir ac o ganlyniad mae cyfraddau ailgylchu wedi codi o 48.3 y cant yn 2010-11 i 54.9 y cant yn 2011-12. Mae'r Cyngor yn safle'r gorau ond pedwar yng Nghymru a chryn dipyn uwchben cyfartaledd Cymru, sef 50 y cant. Hefyd lleihawyd y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi o 51.4 y cant yn 2010-11 i 43.3 y cant yn 2011-12.

47 Ni wnaeth nifer o fentrau newydd gynnydd yn unol â'r cynlluniau, ac ychydig o gynnydd a wnaethpwyd wrth adolygu'r gwasanaeth gwastraff masnachol. Ni wnaeth y fenter i gynnig gwasanaeth ailgylchu gwastraff masnachol gynnydd cystal â'r bwriad ac mae hyn bellach yn darged ar gyfer gweithredu pellach yn 2012-13.

48 Gwneir cynnydd o hyd gyda Phrosiect Gwyrdd[7] ac er bod yr amserlenni wedi cael ei hymestyn, mae penderfyniad terfynol gan y pum cyngor sy'n cymryd rhan ynddo i fod i gael ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13. Mae gwastraff trefol cyfun y pum awdurdod yn 40 y cant o holl wastraff trefol Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi

7 Mae Prosiect Gwyrdd yn bartneriaeth rhwng pum cyngor (Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg) sydd â'r nod o chwilio am y datrysiad gorau'n amgylcheddol a mwyaf cost effeithiol ac ymarferol ar gyfer gwastraff ar ôl ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff ag sy'n bosibl yn ardaloedd y cynghorau.

nodi targed i Gynghorau sicrhau bod 70 y cant o wastraff yn cael ei ailgylchu a'i gompostio erbyn 2025.

## Mae'r perfformiad wrth brosesu hawliadau Budd-dal Tai yn gwella ond mae'r gwasanaeth yn perfformio ymysg y gwaethaf yng Nghymru

49 Yn ystod 2011-12 cyfunodd Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i ffurfio'r cydwasanaeth cyntaf ar gyfer prosesu Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Cyngor yng Nghymru (daeth y cydwasanaeth yn gwbl weithredol o Ebrill 2012 ymlaen pan drosglwyddodd yr holl staff i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen). Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud i wella'r gwasanaeth budd-dal tai yn Sir Fynwy yn y blynyddoedd diwethaf ond mae angen rhagor o welliannau er mwyn gwneud cystal â Chynghorau eraill yng Nghymru.

50 Er bod yr amser cyfartalog a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-dal Tai wedi gwella'n sylweddol yn ystod 2011-12, mae'n dal i fod y gwaethaf yng Nghymru. Aeth amserau prosesu ar gyfer hysbysiadau newid amgylchiadau yn hirach yn ystod 2011-12 ac maent yn hirach na chyfartaledd Cymru. Gwellodd canran yr hawliadau newydd a benderfynwyd o fewn 14 diwrnod, ac mae canran yr hawliadau newydd sydd heb eu penderfynu am fwy na 50 diwrnod yn well na chyfartaledd Cymru. Mae canran uwch o hawliadau'n cael eu cyfrifo'n gywir nag yn y blynyddoedd blaenorol ac mae'r gwasanaeth wedi gallu datrys problemau oedd ar ôl o archwiliadau cymhorthdal blynyddol y blynyddoedd blaenorol.

51 Mae newidiadau i'r trefniadau gofal cwsmeriaid wedi gwneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch. Mae rhagor o waith i integreiddio prosesau a systemau ar y gweill a byddwn yn monitro'r perfformiad yn ystod y flwyddyn gyfredol. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn cynnwys gwella ymhellach lefelau cywirdeb, datrys gordaliadau hanesyddol a phroblemau dyledion, cysoni trefniadau yn y cydwasanaethau, a chwblhau'r gwaith o integreiddio prosesau a systemau.

## Mae'r Cyngor yn gwneud rhywfaint o gynnydd wrth wella ei wasanaethau Cymraeg a bwriedir gwneud mwy o waith yn ystod 2013-14

52 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen. Barn y Comisiynydd ar y gwasanaethau Cymraeg a gyflenwir yn Sir Fynwy yw:

53 ‘Mae fframwaith Asesu Effaith ar Gydraddoldeb mewn lle sy’n cynnwys ystyriaeth o faterion ynghylch y Gymraeg. Er mwyn gwella’r broses, mae’r Cyngor yn bwriadu edrych ar effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg fel rhan o’r hyfforddiant ar yr asesiad. Cyflwynodd y Cyngor wefan ddwyieithog yn ddiweddar. Mae’r datblygiad yn gam cychwynnol pwysig i ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg, ond mae gwaith pellach i’w wneud er mwyn gwella’r gwasanaeth a’i ddatblygu ymhellach. Mae oedi sylweddol wedi bod gyda Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor ac mae’r gwaith ar ei ddatblygu yn parhau. Disgwylir i’r gwaith gael ei gwblhau yn 2013 ac yn y cyfamser bydd angen i’r Cyngor barhau i gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu. Y flaenoriaeth i’r Cyngor am y flwyddyn i ddod yw parhau i ddatblygu’r wefan a mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Iaith fel bod modd cychwyn ei weithredu’.

# Mae'r Cyngor yn gwneud rhywfaint o gynnydd yn ei ddull hunanwerthuso ond mae angen iddo ddod yn fwy cyson a chytbwys yn y ffordd mae'n adrodd ar ei berfformiad, yn ei werthuso ac yn rhoi cyfrif amdano

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar ei berfformiad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Fodd bynnag, gallai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

54 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella at y Cyngor ym mis Rhagfyr 2012, dywedasom fod y Cyngor wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol yn hunanwerthuso ei berfformiad (yr Adroddiad Perfformiad) ym mis Hydref 2012. Nodasom y gallai'r Cyngor gydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru trwy gynnwys yn ei Adroddiad Perfformiad y casgliadau diweddar gan gyrff rheoleiddio ac arolygu eraill (Estyn ac AGGCC), gwybodaeth am y buddion a gyflawnwyd trwy weithio ar y cyd hyd yma, a gwneud yr adroddiad yn fwy hygyrch i ddinasyddion.

## Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol ar gyfer rheol ei berfformiad ac adrodd arno, ond mae anghysondebau o ran adrodd ar wasanaethau yn cyfyngu ar ei allu i werthuso ei berfformiad yn gyson mewn ffordd gytbwys

55 Canfuom fod gwaith rheoli perfformiad ar draws y Cyngor yn cael ei gydgysylltu a'i oruchwylio gan Dîm Gwella canolog. Mae'r Tîm Gwella yn cefnogi perfformiad ar draws gwasanaethau'r cyngor, ac nid yw'n darparu her fewnol i'w gweithgarwch. Mae'r cyfrifoldebau hyn gan y gwasanaethau unigol yn unig fel 'perchnogion' yr Amcanion Gwella, ac maent yn atebol am adrodd ar eu perfformiad eu hunain yn erbyn yr Amcanion. Ers ein hadolygiad rydym yn cydnabod bod capasiti corfforaethol yn y Tîm Gwella wedi lleihau yn ystod 2012-13. Bydd cryfhau'r trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad a gwella yn helpu'r Cyngor i hunanwerthuso a herio ei berfformiad yn fwy cyson ar draws ei holl wasanaethau.

56 Mae'n glir bod gwasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor yn ystyried rheoli perfformiad yn bwysig ac yn angenrheidiol, ac mae ganddynt systemau da sy'n cynorthwyo rheolwyr i fonitro, gwerthuso ac adrodd ar eu perfformiad a bod yn atebol am y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu cyflenwi. Nododd AGGCC yn ei adroddiad perfformiad diweddar (Hydref 2012)[8] fod adroddiad hunanwerthuso'r Cyfarwyddwr yn fanwl ac mae'n rhoi cyd-destun lleol a chenedlaethol clir i gyraeddiadau'r cyngor ac i'r meysydd pwysicaf i'w datblygu. At hynny, mae AGGCC yn cydnabod bod hunanwerthusiad y Cyfarwyddwr yn realistig am yr hyn y gellir ei gyflawni o ystyried yr amserlenni a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

57 Fodd bynnag, mae'r gwendidau a nodwyd o'r blaen yn y gwasanaethau Adfywio a Datblygu Economaidd yn parhau. Ychydig o dystiolaeth o newid neu welliant yn y ffordd mae'r gwasanaethau hyn yn gwerthuso eu perfformiad a ganfuom. Nid yw'r Cyngor yn adrodd yn gyson ar y cynnydd wrth gyflawni Amcanion Gwella a pherfformiad ehangach gwasanaethau i'w bwyllgorau craffu. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfle ar gyfer herio a chraffu ar wasanaethau yn annibynnol

ac yn gwanhau atebolrwydd. Mae yna gyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei her fewnol mewn gwasanaethau ac ar eu traws a chan Aelodau trwy'r drefn Craffu.

58 Canfuom, ar gyfer 2011-12, bod rhywfaint o weithgarwch wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i gael ei adolygu a bod perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei ystyried gan Aelodau Craffu. Mewn meysydd gwasanaeth eraill, nid adroddir yn ffurfiol ar berfformiad gwasanaethau. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan arolygiad diweddar Estyn, a ddywedodd nad yw aelodau etholedig yn cael y wybodaeth maent ei hangen i ddal gwasanaethau i gyfrif yn llawn ac nad yw'r prosesau hunanwerthuso'n ddigon trylwyr. Nododd Estyn hefyd nad yw swyddogion y Cyngor yn defnyddio prosesau sicrhau ansawdd nac ychwaith yn gwerthuso data yn ddigon cyson i wybod lle dylid cyfeirio adnoddau a gwasanaethau er mwyn cyflawni'r deilliannau gorau i'w ddysgwyr. Yn yr un modd, nid yw'r prosesau rheoli perfformiad yn cael eu gweithredu'n gyson yn y gyfarwyddiaeth addysg ac nid yw arweinwyr a rheolwyr bob amser yn gallu cyfarwyddo staff neu eu dal yn atebol yn ddigon da.

59 Bellach mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno trefniadau newydd i gryfhau atebolrwydd a her yn y drefn craffu. Mae hyn yn cynnwys datblygu dulliau newydd i fynd i'r afael â chanfyddiadau rheoleiddwyr allanol a chyflwyno trefniadau blynyddol newydd ar gyfer adrodd ar berfformiad a hunanwerthuso i holl wasanaethau'r Cyngor.

## Mae strwythur da i adroddiad hunanwerthuso blynyddol y Cyngor er mai cyfyngedig yw'r gwaith asesu ar gamau gweithredu mewn rhai gwasanaethau, sy'n gwanhau atebolrwydd ac yn ei gwneud yn anodd barnu cynnydd ac effaith yn effeithiol

60 Mae hunanwerthuso effeithiol yn dibynnu ar greu diwylliant sydd, fel mater o drefn, yn herio a gwerthuso ei berfformiad ei hun mewn ffordd wrthrychol, yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn ei defnyddio'n dda, ac sy'n canolbwyntio ar ddata o ansawdd a threfniadau adrodd o safon uchel, er mwyn gallu llunio barn gytbwys ar ei berfformiad.

61 Yn ein llythyr Asesiad Gwella ym mis Rhagfyr 2012 nodasom, er bod cynnydd yn cael ei wneud o hyd yn y ffordd mae'r Cyngor yn gwerthuso ei berfformiad, mae gwendidau o ran ansawdd a thrylwyredd ei waith gwerthuso'n golygu nad yw'n gallu barnu'n effeithiol pa mor dda mae'n cyflawni gwelliant mewn rhai meysydd pwysig. Cynhyrchodd y Cyngor adroddiad gwerthuso blynyddol (Adroddiad Perfformiad) o'i berfformiad o ran cyflawni ei Amcanion Gwella oedd wedi'i strwythuro'n dda, wedi'i gyflwyno'n eglur ac yn hawdd i'w ddarllen. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth dda am reoli cyllidebau, gwariant refeniw a chyfalaf a chanlyniadau rhaglenni arbedion, ac yn cysylltu rhaglen wella'r Cyngor â'i themâu a blaenoriaethau creiddiol. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi i'r darllenydd ymdeimlad o'r heriau mae'r Cyngor yn eu hwynebu ac o'i werthoedd ac egwyddorion sylfaenol.

62 Yn 2011-12 mae'r Cyngor wedi parhau i fireinio a chryfhau ei fesurau perfformiad i'w helpu i asesu'n well effaith ei waith, fydd yn caniatáu iddo ddod yn fwy atebol i ddinasyddion yn Sir Fynwy. Fodd bynnag, gwelsom ddarlun anghyson o ba mor dda mae'r fframwaith atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau[9] wedi'i sefydlu yn y Cyngor.

63 Mewn rhai meysydd, mae ystod ac ansawdd y mesurau perfformiad a ddefnyddiwyd yn galluogi'r Cyngor i werthuso cynnydd yn dda. Mae hyn yn wir, er enghraifft, ar gyfer yr Amcan Gwella sy'n dod ag iechyd, gofal cymdeithasol ac asiantaethau annibynnol ynghyd trwy Raglen Eiddilwch Gwent i hyrwyddo annibyniaeth pobl fregus. Mewn meysydd eraill, fodd bynnag, nid yw'r sylfaen dystiolaeth a gwerthuso mor gadarn. Dangosir hyn, er enghraifft, o dan yr Amcan Gwella sy'n canolbwyntio ar ddarparu dull cydgysylltiedig a chynhwysfawr o adfywio a datblygu ardaloedd.

64 Mae adroddiad hunanwerthuso'r Cyngor yn cynnwys sylwadau ar rai meysydd, megis gwasanaethau gwastraff, lle mae cynnydd yn araf neu lle na wnaethpwyd unrhyw gynnydd o ran cyflawni camau gweithredu. Mae'r rhannau hyn o'r adroddiad yn cyflwyno adolygiad mwy cytbwys, atebol a chynhwysfawr o'i berfformiad. Fodd bynnag, canfuom hefyd nad yw'r sylfaen dystiolaeth a gwerthuso yn gadarn mewn rhai meysydd, ac nad yw'r naratif yn cyd-fynd â'r casgliad ynglŷn ag a yw'r Cyngor yn gwneud yr hyn yr oedd wedi bwriadu ei wneud. Mae hyn yn gwanhau proses hunanwerthuso'r Cyngor ac yn cyflwyno darlun anghytbwys ac anghyflawn o'r graddau y mae wedi gwneud yr hyn yr oedd wedi bwriadu ei wneud.

65 Mae adroddiad hunanwerthuso blynyddol y Cyngor hefyd yn nodi pa mor effeithiol y mae o ran cyrraedd ei dargedau, a gall dinasyddion weld a yw'r Cyngor yn gwneud y gwelliannau y credai y gallai eu cyflawni. Mae hunanwerthusiad y Cyngor hefyd yn cynnwys gwybodaeth benodol am gyllidebau cyfalaf a refeniw sy'n cyfrannu at gyflawni gweithgareddau o dan bob un o'r Amcanion Gwella. Mae hefyd yn nodi'n benodol rôl y partneriaid a sut maent yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a fwriedir.

66 Mae adroddiad y Cyngor yn nodi mewn gwahanol fannau ei berfformiad yn erbyn gwahanol fesurau. Gellid gwella hyn trwy gynnwys gwybodaeth am safle'r Cyngor ymhlith y 22 o gynghorau Cymru; y newid blynyddol yn ei safle; a'i berfformiad o gymharu â chynghorau eraill er mwyn barnu cyfradd y gwelliant mewn ffordd fwy cytbwys. Byddai cynnwys system oleuadau traffig (Coch: Melyn: Gwyrdd) hefyd yn ei gwneud yn hawdd nodi a yw perfformiad yn gwella neu'n dirywio.

67 Fodd bynnag, nid yw dadansoddiadau adroddiad hunanwerthuso'r Cyngor yn ddigon eang mewn rhai meysydd ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar asesu perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol. Nid yw'n cynnwys canlyniadau adolygiadau gan gymheiriaid, asesiadau craffu a ffynonellau eraill o wybodaeth fwy ansoddol megis arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid â gwasanaethau a data meincnodi. Byddai cynnwys y wybodaeth ychwanegol hon yn cynorthwyo'r Cyngor i hunanwerthuso ei berfformiad yn fwy effeithiol ac adrodd ar welliant yn fwy cyflawn.

9 Mae Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau yn canolbwyntio ar farnu effaith a chanlyniadau a'r gwahaniaeth y gall gwasanaethau ei wneud i 'ansawdd bywyd' pobl. Mae'n ddull o gynllunio ac asesu perfformiad gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau y bwriedir i'r gwasanaethau eu cyflawni.

68 Yn olaf, nid yw'r adroddiad hunanwerthuso yn cynnwys datganiad gwerthusol cyffredinol yn erbyn pob un o'r Amcanion Gwella i ddynodi'n eglur a yw'r Cyngor yn credu ei fod wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Mae absenoldeb datganiadau gwerthusol yn tanseilio trefniadau hunanwerthuso'r Cyngor ac yn rhwystro'r Cyngor a'r cyhoedd rhag deall a gyflawnwyd yr Amcanion Gwella ai peidio. Mae hyn yn gwanhau atebolrwydd y Cyngor i ddinasyddion.

## Nid yw'r systemau ar gyfer rheoli rhai dangosyddion perfformiad yn drylwyr ac mae dibynadwyedd y data wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

69 Mae angen i bob cyngor feddu ar wybodaeth dda a'i defnyddio'n effeithiol os yw'n mynd i ddarparu gwasanaethau da a'u gwneud yn well eto. Mae gan y Cyngor systemau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer adrodd ar ei berfformiad ac rydym wedi archwilio'r systemau hyn yn ddiweddar i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy yw'r trefniadau hyn. Roedd y mesurau a ddewisasom i'w harchwilio yn cynnwys cymysgedd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaeth a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Canfuom fod gan y Cyngor systemau da ar waith ar y cyfan i gydgysylltu a rheoli'r gwaith o gynhyrchu'r wybodaeth hon ar berfformiad ar gyfer Cymru gyfan, er bod amodau ynghlwm wrth un o'r 13 mesur a archwiliwyd.

70 Mewn perthynas â mesurau lleol, archwiliasom 15 o ddangosyddion perfformiad lleol, a defnyddir pob un ohonynt i farnu pa mor dda mae'r Cyngor yn perfformio o ran cyflawni ei chwe Amcan Gwella. O'r cyfanswm hwn, canfuom: nad oedd gan un o'r dangosyddion systemau ar waith ar gyfer adrodd ar berfformiad, ac o ganlyniad, ni ellid ei archwilio na'i ddefnyddio i farnu gwelliant; gosodwyd amodau ar dri dangosydd oherwydd anghysondeb wrth goladu ac asesu data; a bu'n rhaid diwygio dau ddangosydd o ganlyniad i nam system. Mae'r canlyniad hwn yn ddirywiad sylweddol yn y perfformiad ers 2010-11, pan na nodasom unrhyw drafferthion system o gwbl ar gyfer rheoli ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad.

71 Yn ddiweddar rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor ac ar sail hyn barn yr Archwilydd Penodedig yw bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldeb mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad 3.

## Mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofynion sydd arno i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2012-13. Mae cyfeiriad y Cyngor yn glir ac mae newid yn cael ei yrru'n gyflym

72 Ni ellir tanbrisio faint a pha mor gyflym mae'r Cyngor wedi newid yn y tair blynedd diwethaf. Bellach mae'r Cyngor wedi'i drefnu mewn ffordd wahanol iawn ac mae'n cyflenwi gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol iawn. Mae'n canolbwyntio'n fwyfwy ar fod yn arloesol a chreadigol ac annog a galluogi cymunedau i wneud mwy drostynt eu hunain.

73 Yn 2012-13 mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu'r ethos hwn ac wedi gweithredu rhaglen newid newydd, 'Your County, Your Way', i greu newid diwylliannol fydd yn sylfaen i'w holl weithgarwch yn y dyfodol. Mae'r rhaglen newid yn canolbwyntio ar bum maes gweithgarwch craidd - gweithio ystwyth a rhwydweithiol; meddwl a gwneud trwy systemau; intrapreneuriaeth; datblygiad cymheiriaid a gwybodaeth; a datblygu offer gwrando effeithiol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda NESTA[10] o dan y rhaglen Cynghorau Creadigol i gyflawni 'Your County, Your Way'.

74 Yn y blynyddoedd diwethaf mae ein hadroddiadau wedi dod i'r casgliad, er mwyn i'r dull uchelgeisiol hwn lwyddo a sicrhau'r gwelliannau a ddymunir, bydd ar y Cyngor angen arweiniad a rheolaeth clir a chyson a bydd angen iddo ganolbwyntio'n eglur ar sicrhau bod y newidiadau'n arwain at ganlyniadau gwell i ddinasyddion. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar gynlluniau'r Cyngor yn y dyfodol a byddwn yn dweud a yw'r rhaglen newid hon yn sicrhau'r buddion a ragwelir.

75 Yn sgil yr etholiadau i awdurdodau lleol ym mis Mai 2012 daeth newid i weinyddiaeth y Cyngor. Bellach mae'r Cyngor yn cael ei arwain gan Weinyddiaeth Bartneriaeth sy'n cynnwys Grwpiau'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'r Arweinydd wedi cadw ei Aelodau Cabinet blaenorol ac ychwanegwyd Arweinydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol i'r Cabinet. Mae cytundeb partneriaeth wedi cael ei ddatblygu a'i lofnodi gan y ddau grŵp gwleidyddol; mae hwn yn sylfaen i waith y Weinyddiaeth ac yn cadarnhau ei blaenoriaethau. Bellach mae 21 o 43 aelod y Cyngor yn dod o'r gwrthbleidiau. Mae'r Weinyddiaeth Bartneriaeth eisiau parhau i fwrw ymlaen ag agenda moderneiddio a dangos bod y newidiadau mae'n eu gwneud yn arwain at ganlyniadau gwell i ddinasyddion.

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac wedi cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru

76 Cyhoeddodd y Cyngor 'Looking to the Future: Your County, Your Way Improvement Plan 2012-15' ym mis Mehefin 2012. Mae hwn yn ail-gadarnhau tair blaenoriaeth strategol y Cyngor sef: gwella ysgolion; amddiffyn pobl agored i niwed; a chefnogi menter, creu swydd ac entrepreneuriaeth. Mae pump o'r chwe Amcan Gwella yn adlewyrchu'r tair blaenoriaeth hyn a nod y chweched yw moderneiddio'r ffordd mae'r Cyngor yn cael ei redeg trwy weithredu rhaglen newid trawsnewidiol newydd y Cyngor, 'Your County, Your Way'.

10 Mae NESTA yn elusen annibynnol sy'n helpu pobl a sefydliadau i ddod â syniadau'n fyw ac i ddatblygu atebion arloesol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

77 Mae pob un o chwe Amcan Gwella'r Cyngor yn cynnwys crynodeb sy'n nodi'r sail resymegol benodol dros ei ddewis fel blaenoriaeth ar gyfer gwella. Mae'r sail resymegol yn cynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, barn partneriaid strategol, ymgysylltu â rhanddeiliaid a materion cymunedol. Mae'r Cyngor wedi datgan yn glir beth yw nod pob un o'r Amcanion Gwella o ran ei flaenoriaethau ac mae wedi nodi mesurau llwyddiant bras. Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd y camau gweithredu a'r prosiectau ar gyfer pob Amcan Gwella yn cael eu rheoli trwy Gynlluniau Gwella Gwasanaethau ar lefel adrannau/ timau unigol. Mae'r Cynllun hefyd yn nod, yn fras, yr adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r Amcanion Gwella.

78 Mae gwaith ar y gweill i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, llinellau sylfaen a thargedau sy'n mynd gyda hwy a bydd angen i hwn barhau dros y 12 mis nesaf. Bydd y cysylltiadau gwell hyn yn ei gwneud yn haws i'r Cyngor ddangos ei fod yn cyflawni'r holl Amcanion Gwella'n effeithiol. Mewn llawer o'r Amcanion mae'r ffocws yn glir iawn a nodir yn glir yr effaith y bwriedir i welliant ei chael. Er enghraifft, ar gyfer yr Amcan Gwella sy'n ymwneud â gwella addysg a dysgu yn Sir Fynwy, mae'r mesurau llwyddiant yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad ac mae'n glir beth y bwriedir i'r canlyniad fod. Mewn Amcanion Gwella eraill mae'n llai clir. Er enghraifft, o dan yr Amcan Gwella sy'n ymwneud â darparu dull cydgysylltiedig a chyflawn o adfywio a datblygu ardaloedd, mae'r pwyslais ar adfywio'r pedair tref fawr yn y sir – Trefynwy, Y Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed. Mae angen i'r Cyngor gryfhau'n fwy byth y ffordd mae'n cysylltu'r ffocws ar gyfer gweithgarwch gwella blynyddol o dan bob un o'i Amcanion Gwella, y cynlluniau gweithredu ar gyfer cydgysylltu'r gwaith o'u cyflawni, a'r mesurau i farnu llwyddiant.

79 Nododd Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ofynion penodol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae cryn dipyn o aliniad rhwng y gofyniad i gynhyrchu Amcanion Cydraddoldeb a'r elfen 'Tegwch' mae'n rhaid i awdurdodau roi ystyriaeth iddi wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Mae *'Looking to the Future: Your County, Your Way Improvement Plan 2012-15'* yn cynnwys gwybodaeth fanwl sy'n dangos sut mae'r Cyngor wedi bodloni'r gofynion statudol hyn wrth bennu ei Amcanion Gwella a'i Gynllun gwella ar gyfer 2012-15.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r meysydd ar gyfer gwella a nodasom. Mae'r systemau sydd ar waith i gydgysylltu a rheoli'r canfyddiadau o rywfaint o'n gwaith yn cael eu cryfhau

80 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella i'r Cyngor ym mis Medi 2012, dywedasom fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd yn gyffredinol wrth fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'n cynigion ar gyfer gwella. Mae'r Cyngor yn llunio ei ymateb i reoli'r canfyddiadau a'r cynigion ar gyfer gwella oddi wrth reoleiddwyr ac arolygwyr allanol, ar sail penderfyniad ynglŷn ag a yw'r cynnig yn newid sylfaenol i arferion neu'n ddiwygiad i arferion gwaith beunyddiol.

81 Ers yr adeg honno mae'r Cyngor wedi cyflwyno systemau newydd i gydgysylltu a rheoli'r gwaith o weithredu canfyddiadau rheoleiddwyr allanol. Mae un cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu sy'n cipio'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella; yn nodi'r dystiolaeth ategol a ddefnyddir i farnu effaith y camau gweithredu a gynlluniwyd; ac yn tracio lle mae'r cynnydd yn cael ei fonitro a'i werthuso er mwyn sicrhau bod y rheiny sy'n gyfrifol am welliant yn atebol am eu perfformiad. Byddwn yn asesu'r cynnydd ac yn adrodd ar ein canfyddiadau yn ein hasesiad nesaf o'r trefniadau corfforaethol.

82 Yn gyffredinol mae camau gweithredu'n cael eu cipio mewn Cynlluniau Gwella Gwasanaethau. Mae gan y rhain gyfarwyddyd clir a systemau rheolaeth ac atebolrwydd priodol ar waith i dracio'r cynnydd wrth eu cyflawni ac asesu eu heffaith. Mae'r Cynlluniau Gwella Gwasanaethau yn cael eu monitro gan yr Adrannau cyfrifol, y Tîm Arweinyddiaeth Strategol, y Pwyllgor Archwilio a Chyfrifon a'r Pwyllgorau Dethol a'r Cabinet mewn cylch chwe-misol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adnewyddu ei Gynlluniau Gwella Gwasanaethau i'w halinio â *'Looking to the Future: Your County, Your Way Improvement Plan 2012-15'.*

83 Canfuom fod y Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio ill dau wedi cael ein Hadroddiad Asesu Corfforaethol a'n Hadroddiad Gwella Blynyddol ym mlynyddoedd y gorffennol, yn ogystal â chanfyddiadau Rheoleiddwyr ac Arolygiaethau eraill. Mae hyn yn helpu Aelodau i asesu sut mae'r Cyngor yn perfformio, ac ystyried barn annibynnol ar ddull y Cyngor o gyflawni gwelliant i ddinasyddion.

84 Nodasom ym mis Medi 2012 nad yw ein hadolygiadau diweddar yn seiliedig ar wasanaethau yn cael eu cyflwyno bob tro i bwyllgorau dethol ac yn gyffredinol cânt eu rheoli o fewn gwasanaethau. Argymellasom y dylai'r Cyngor gryfhau atebolrwydd am berfformiad gydag adrodd gwell i'r Pwyllgorau Dethol ac yn ei wasanaethau er mwyn sicrhau gwell herio a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad. Bellach eir i'r afael â'r argymhelliad hwn wrth i drefniadau newydd gael eu cyflwyno yn 2012-13 i fonitro a gwerthuso perfformiad yn well, yn enwedig gan aelodau. Mae hyn yn enghraifft dda o'r ffordd mae'r Cyngor yn ymateb yn gadarnhaol i herio a rheoleiddio allanol.

Mae gan y Cyngor hanes da o lwyddo o ran cynllunio ariannol ac ymdopi gyda llai o arian ac mae ei barodrwydd i arloesi a herio ffyrdd traddodiadol o weithio yn ei gynorthwyo i foderneiddio'r ffordd mae'n gweithio. Mae cyfyngiadau ar gyllid cyfalaf yn anodd o hyd ac mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â diffyg ar gyllideb 2012-13

85 Yn ein Llythyr Asesu Gwella at y Cyngor ym mis Medi 2012 dywedasom fod dealltwriaeth dda gan y Cyngor o faterion ariannol, a bod hyn wedi arwain at broses cynllunio ariannol tymor canolig drylwyr iawn ers rhai blynyddoedd. Mae parodrwydd gan y Cyngor i ystyried ystod eang o ddewisiadau ac mae'n gweddnewid y ffordd mae'n cyflwyno gwasanaethau i ddinasyddion trwy 'Your County, Your Way'. Mae tystiolaeth yn fframwaith cynllunio ariannol y Cyngor bod targedau lefel uchel a thargedau strategol allweddol Llywodraeth Cymru'n cael eu hymgorffori, megis y targedau gwastraff cenedlaethol, ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif a diogelu gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed.

86 Mae dealltwriaeth dda gan y Cyngor o'r pwysau costau mae'n eu hwynebu, ac mae ganddo systemau da ar waith i asesu ac adolygu ei berfformiad ariannol yn aml. Gwneir diweddariadau rheolaidd i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig trwy gydol pob blwyddyn. Mae'r Cyngor wedi datblygu dull manwl a systematig o adolygu cyllidebau refeniw, ac mae hyn wedi ei alluogi i leihau gwariant yn unol â gostyngiadau yng nghymorth llywodraeth ganolog.

87 Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion cyllideb refeniw ac o weithredu o fewn ei gyllideb, ac mae wedi cyflawni gwarged o £4 miliwn ar ei gyllideb 2011-12. £149.1 miliwn yw'r gyllideb Refeniw ar gyfer 2012-13 ac mae'r Cyngor wedi nodi'r angen i sicrhau arbedion o ryw £5 miliwn i gydbwyso cyllideb 2012-13. Ym mis Rhagfyr 2012 tynnodd gwybodaeth monitro cyllidebau ar gyfer cyllidebau a reolir yn uniongyrchol pob adran sylw at orwariant ar gost net gwasanaethau o £2.391 miliwn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd pwysau ariannol yn adrannau Gofal Cymdeithasol ac Addysg ac mae'r Cyngor yn gweithio i wella'r sefyllfa hon. Rhagwelir y bydd rhaglen gyfalaf 2012-13 o £26 miliwn â llithriant i 2013-14 o £7.4 miliwn a thanwariant ar gynlluniau cyfredol o £0.1 miliwn.

88 Mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd y gostyngiadau a ragwelir yn y cyllid refeniw a'r cyllid cyfalaf oddi wrth y Llywodraeth a galw cynyddol am rai gwasanaethau. Ym mis Ionawr 2013 nododd y Cyngor ddiffyg o £4.8 miliwn yn ei gyllideb refeniw ar gyfer 2013-14 ac mae wedi nodi'n fras yr arbedion mae angen iddo eu gwneud i fynd i'r afael â hyn. Mae'r Cyngor yn parhau i wneud gwaith i sicrhau bod ganddo gyllidebau cynaliadwy yn y tymor hir.

89 Dywedasom ym mis Medi 2012 mai cyfyngedig oedd y gwaith yr oedd y Cyngor wedi'i wneud ar newidiadau demograffig a chadernid gwasanaethau, yn bennaf oherwydd nad yw gwybodaeth am anghenion / galw tymor canolig wedi'i datblygu'n dda ac nad yw ar gael yn rhwydd.

Ar hyn o bryd rydym yn cwblhau gwaith manwl ar effaith arbedion cyllideb ar dri gwasanaeth er mwyn canfod eu gallu i barhau i fodloni'r gofynion statudol ar y Cyngor gyda llai o arian, a'u cynaliadwyedd yn y tymor hir.

## Mae gan bartneriaid ymrwymiad cryf i weledigaeth Rhaglen Eiddilwch Gwent ac wedi creu fframwaith rheoli rhaglen cadarn i fod yn sylfaen iddi. Mae Rhaglen Eiddilwch Gwent yng nghamau cynnar ei gweithredu ac mae heriau o hyd i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, i newid ymddygiadau hirsefydlog ac i ddangos ei heffaith

90 O fis Ebrill 2011, dechreuodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Mynwy, Casnewydd a Thorfaen weithredu model integredig uchelgeisiol o iechyd a gofal cymdeithasol o'r enw Rhaglen Eiddilwch Gwent. Mae statws cyfreithiol i'r rhaglen o dan gytundeb Partneriaeth Adran 33[11] rhwng y Bwrdd Iechyd a'r pum awdurdod lleol, ac fe'i cefnogir gan £6.9 miliwn o Gyllid Buddsoddi i Arbed oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae nodau'r Rhaglen yn arbennig o berthnasol i'r ffordd mae'r cyrff sector cyhoeddus sy'n cymryd rhan yn defnyddio eu hadnoddau, ac maent yn ganolog i gyflawni blaenoriaethau gwella ym mhob un o'r asiantaethau dan sylw.

91 Gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad cychwynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu Rhaglen Eiddilwch Gwent, gan ganolbwyntio ar ddarparu sicrwydd cynnar mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu, a'r cyfeiriad tuag at gyflawni'r nodau a'r canlyniadau a fwriadwyd, yn hytrach na gwerthuso'r llwyddiant. Daethom i'r casgliad bod gan y Partneriaid ymrwymiad cadarn i gydweledigaeth Rhaglen Eiddilwch Gwent a'u bod wedi creu fframwaith rheoli rhaglen cadarn i fod yn sylfaen iddi. Mae'r Rhaglen yng nghamau cynnar ei gweithredu ac mae heriau o hyd i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, i newid ymddygiadau hirsefydlog ac i ddangos ei heffaith.

92 Mae ein hadroddiad penodol ar Raglen Eiddilwch Gwent yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella. Mae Bwrdd Rhaglen Eiddilwch Gwent yn bwrw ymlaen â'r rhain ac mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn cael ei gwblhau. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y rhaglen a byddwn hefyd yn monitro'r cynllun gweithredu. Rydym hefyd yn rhagweld y byddwn yn gwneud gwaith dilynol.

11 Mae cytundeb partneriaeth o dan Adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi cael ei sefydlu i ganiatáu ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chyfuno cyllidebau er mwyn cyflenwi prosiect Eiddilwch Gwent.

## Mae Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De Ddwyrain Cymru wedi cael ei greu ac mae'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad mewn ysgolion

93 Ym mis Medi 2012 sefydlodd Consortiwm De Ddwyrain Cymru y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De Ddwyrain Cymru[12]. Mae'r consortiwm hwn wedi cael ei greu gan y pum awdurdod lleol i godi safonau addysgol. Bydd y consortiwm yn monitro, cefnogi a herio ysgolion er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad. Mae'r buddion a fwriedir o'r gwasanaeth yn cynnwys mwy o allu i gefnogi ysgolion sydd angen her, defnyddio data'n fwy effeithiol o ganolbwyntio ar ddeilliannau, canfod arferion da ar draws ysgolion y gellir eu defnyddio i wella deilliannau, gweinyddiaeth fwy effeithlon a hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol.

12 Mae'n cynnwys pum awdurdod lleol, sef Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen ac mae'n cwmni dan gydberchnogaeth wedi'i gyfyngu drwy warant, i gyflenwi cymorth gwella i ysgolion ac ysgogi cyrhaeddiad addysgol.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu yn yr adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Fynwy a Chyngor Sir Fynwy

## Y Cyngor

£177 miliwn yw cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2012-13. Mae hyn yn cyfateb i ryw £1,939 am bob trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd gan y Cyngor hefyd gyllideb cyfalaf o £31 miliwn.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Sir Fynwy oedd £1,225 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 0.4 y cant i £1,229 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae pedwar deg saith y cant o dai Sir Fynwy yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 43 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 19 aelod o'r blaid Geidwadol
- 10 o aelodau Annibynnol
- 11 aelod o'r blaid Lafur
- 3 aelod o blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Paul Matthews yw Prif Weithredwr Sir Fynwy. Y Prif Weithredwr yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Phrif Gynghorydd Polisi i'r Cyngor. Mae'r tîm arwain yn cynnwys Moyna Wilkinson, Dirprwy Prif Weithredwr; Kellie Beirne, Prif Swyddog Adfywio a Diwylliant; Simon Burch, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol ac Iechyd; Tracey Harry, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Gwella; a Joy Robson, Pennaeth Cyllid.

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Sir Fynwy ar gyfer 2011-2016 yw:

- Nick Ramsey, Sir Fynwy, y blaid Geidwadol
- Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru, y blaid Geidwadol
- Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru, Plaid Cymru
- Lindsay Whittle, Dwyrain De Cymru, Plaid Cymru
- William Graham, Dwyrain De Cymru, y blaid Geidwadol

Yr Aelod Seneddol dros Sir Fynwy ar gyfer 2010–2015 yw:

- David Davies, Sir Fynwy, y blaid Geidwadol.

Am ragor o wybodaeth gweler y Cyngor ei hun yn www.sirfynwy.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor trwy Flwch SP 106, Cil-y-coed, NP26 9AN.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o fy nghyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Cyngor Caerdydd â'i gyfrifoldebau o ran perfformiad ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol a'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 28 Medi 2012 cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y materion allweddol oedd yn codi o'r cyfrifon eu cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ac i'r Cyngor llawn yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 20 Medi 2012 a 27 Medi 2012 yn y drefn honno.

Dywedasom ein bod wedi gwneud nifer fach o ddiwygiadau i'r Datganiad o Gyfrifon drafft ond ni nodasom unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol. Nodwyd rhai camddatganiadau na chawsant eu cywiro yn y Datganiad o Gyfrifon, oherwydd nad oeddent yn berthnasol eu natur.

Hefyd, nodwyd nifer o faterion eraill y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â hwyl fel rhan o'i broses i gynhyrchu cyfrifon 2012-13. Mae'r materion hyn yn cael eu crynhoi yn y Ddogfen Gynnydd ar y Cyd rhwng Cyngor Sir Fynwy a Swyddfa Archwilio Cymru a gyflwynasom i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar 1 Tachwedd 2012. Byddwn yn gweithio gyda swyddogion i fynd i'r afael â'r rhain fel rhan o'n harchwiliad parhaus ac yn rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor Archwilio fel bo'n briodol.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaethpwyd ar y cyfrifon, yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a wnaethpwyd fel rhan o'r Asesiad Gwella dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). At ei gilydd, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi cael ei ddangos eto, neu lle gellid gwneud gwelliannau, pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

## Tystysgrif cwblhau

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Fynwy yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**Richard Harries, Arweinydd Cyswllt**
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**
**29 Tachwedd 2012**

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau,* ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei ddogfen *'Looking to the Future: Your County, Your Way Improvement Plan 2012-15'* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.monmouthshire.gov.uk/improvement/?L=1. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella 2011-12 | Amcanion Gwella 2012-13 |
|---|---|
| Rydym eisiau dod ag asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac annibynnol ynghyd mewn un model gofal yn y gymuned o'r enw *Rhaglen Eiddilwch Gwent.* Yn fwy penodol eleni byddwn yn cyflwyno timau ymateb cyflym o nyrsys ardal, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr cartref sy'n cydweithio i atal pobl rhag gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. | Byddwn yn parhau i ddod ag iechyd, gofal cymdeithasol ac asiantaethau annibynnol ynghyd mewn un model gofal yn y gymuned o'r enw Rhaglen Eiddilwch Gwent. Yn fwy penodol eleni byddwn yn parhau i weithredu timau amlddisgyblaethol i ddarparu ymarfer integredig a chychwyn rhaglen 'dolen goll' sydd â'r nod o wella ein hymateb i blant sydd ar goll neu sydd wedi rhedeg i ffwrdd. |
| Rydym eisiau gwella ffyniant ein sir a'i gwneud yn fwy deniadol i fusnesau. Yn fwy penodol eleni,byddwn yn cefnogi busnesau ac yn hyrwyddo'r sir i fewnfuddsoddwyr. | Rydym eisiau gwella ffyniant ein sir a'i gwneud yn fwy deniadol i fusnesau. Eleni byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaethom wrth gefnogi busnesau sy'n bodoli eisoes a rhai newydd a hefyd yn troi at ganolbwyntio ar sicrhau'r enillion ariannol a chymdeithasol mwyaf posibl ar fuddsoddiad yn ein heconomi twristiaeth. |
| Rydym eisiau darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth a chyflenwi rhaglenni effeithlonrwydda chynnal a chadw fel cynllun adfywio cyfannol i gymunedau yng ngogledd y sir. Yn fwy penodol eleni byddwn yn canolbwyntio ar ardal Overmonnow. | Rydym eisiau darparu dull cydgysylltiedig a chynhwysfawr o adfywio a datblygu ardaloedd. Gan barhau o'r llynedd, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau allweddol i adolygu'r cynlluniau adfywio ardal cyfannol presennol, neu i ddatblygu rhai newydd, ar gyfer ein trefi allweddol, sef Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy. Byddwn hefyd yn defnyddio'r dull hwn wrth ddatblygu cymunedau llai, gan ddechrau yn Llanelli Hill ac Overmonnow. |

| Amcanion Gwella 2011-12 | Amcanion Gwella 2012-13 |
|---|---|
| Rydym eisiau diwygio'r ffordd yr ydym yn darparu addysg i sicrhau'r cyfleoedd dysgu gorau i'n plant, ein pobl ifanc a'r gymuned ehangach. Yn fwy penodol eleni byddwn yn datblygu gwell arferion addysgu a dysgu ac yn adeiladu seilwaith TGCh modern yn ein hysgolion. | Rydym eisiau gwella'r ffordd yr ydym yn darparu addysg i sicrhau'r cyfleoedd dysgu gorau i'n plant, ein pobl ifanc a'r gymuned ehangach. Yn fwy penodol eleni byddwn yn rhoi'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar waith fel dull ar y cyd rhwng awdurdodau er mwyn datblygu gwell arferion addysgu a dysgu, byddwn yn mynd ati i wella safleoedd yr ysgolion fel eu bod yn addas i ddarparu addysg ar gyfer yr 21ain ganrif, a byddwn yn parhau â'n rhaglen o adeiladu seilwaith TGCh modern yn ein hysgolion. |
| Rydym eisiau gweithio gyda'n partneriaid a'r gymuned i gynyddu'r gwastraff sy'n cael ei drin mewn modd cynaliadwy ac i weithio tuag at ddewis arall cynaliadwy tymor hir yn lle tirlenwi. Yn fwy penodol eleni byddwn yn datblygu rhaglen o gasgliadau bob pythefnos ledled y sir gan gynnwys compostio ac ailgylchu. Fel rhan o hyn, byddwn yn bwrw ymlaen â Phrosiect Gwyrdd i gynnig ffordd gynaliadwy a thymor hir o drin gwastraff gweddilliol. | Rydym eisiau gweithio gyda'n partneriaid a'r gymuned i gynyddu'r gwastraff sy'n cael ei drin mewn modd cynaliadwy ac i weithio tuag at ddewis arall cynaliadwy tymor hir yn lle tirlenwi. Fel rhan o hyn, byddwn yn bwrw ymlaen â Phrosiect Gwyrdd i gynnig ffordd gynaliadwy a thymor hir o drin gwastraff gweddilliol. |
| Rydym eisiau moderneiddio'r ffordd mae'r Cyngor yn cael ei redeg er mwyn gwella ein ffordd o weithio. Yn fwy penodol byddwn yn newid y ffordd yr ydym yn rhedeg rhai gwasanaethau i leihau'r costau ac i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn y modd gorau posibl. | Rydym eisiau moderneiddio'r ffordd mae'r Cyngor yn cael ei redeg er mwyn gwella ein ffordd o weithio. Yn fwy penodol byddwn yn canolbwyntio ar newid diwylliant ein sefydliad i sicrhau ein bod yn gwrando ar yr hyn mae ein cymunedau ei eisiau ac yn dod yn fwy ymatebol ac arloesol wrth ddiwallu'r anghenion hynny. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad ar gael yn y ddogfen *'How we performed 2011/12 Improvement Plan – Stage 2'* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn: www.monmouthshire.gov.uk/improvement/?L=1

# Atodiad 5
# Cynigion ar gyfer gwella 2012-13

Yn ystod ein gwaith yn 2012-13 rydym wedi gwneud rhai cynigion newydd ar gyfer gwella. Mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno o'r blaen i'r Cyngor ac fe'u nodir isod er gwybodaeth. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor wrth weithredu'r cynigion o dan ein rhaglen waith yn y dyfodol.

| Cynigion ar gyfer gwella – Cryfhau'r ffordd mae'r Cyngor yn gwerthuso ac yn adrodd ar ei berfformiad a'i allu a'i alluogrwydd i gyflawni gwelliant | |
|---|---|
| **C1** | Cydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru trwy:<br>• fynegi barn y Cyngor ynglŷn â'i lwyddiant o ran cyflawni ei amcanion gwella;<br>• defnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach o wybodaeth i alluogi'r Cyngor i asesu a yw wedi cyflawni ei amcanion gwella; a<br>• sicrhau bod asesiad y Cyngor o'i berfformiad mor hygyrch â phosibl i ddinasyddion a rhanddeiliaid. |
| **C2** | Sicrhau bod gan bob gwasanaeth drefniadau cyson ac effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad, adrodd arno, ei werthuso a'i wella, yr adroddir arnynt yn erbyn safonau gofynnol cytunedig ac sy'n destun gwaith craffu a herio trylwyr. |

| Cynigion ar gyfer gwella – Cynllunio Gwelliant | |
|---|---|
| **C1** | Pennu mesurau llwyddiant sy'n canolbwyntio'n benodol ar farnu effaith y rhaglen weithredu flynyddol ar gyfer pob amcan gwella er mwyn galluogi arfarnu pa mor llwyddiannus yw perfformiad o ran cyflawni canlyniadau. |
| **Cynigion ar gyfer gwella – Gweithredu cynigion ar gyfer gwella** | |
| **C2** | Adrodd i'r pwyllgorau dethol priodol am berfformiad o ran mynd i'r afael â chanfyddiadau ein hadolygiadau'n seiliedig ar wasanaethau, er mwyn galluogi aelodau i graffu ar wasanaethau a'u herio. |

| Cynigion ar gyfer gwella – Rhaglen Eiddilwch Gwent | |
|---|---|
| **C1** | Creu un set o wybodaeth gymharol am berfformiad ar draws Rhaglen Eiddilwch Gwent, wedi'i seilio ar fesurau canlyniadau i ddefnyddwyr, costau a chynaliadwyedd. Datblygu llinellau sylfaen perfformiad cyson yn erbyn dangosyddion er mwyn monitro ac adrodd ar gynnydd; gwerthuso effaith gwahanol ddulliau yn y rhaglen; cynorthwyo â lleihau amrywiadau nad oes modd eu cyfiawnhau; canfod, asesu a rhannu arferion da. |
| **C2** | Datblygu fframwaith i gyd-graffu ar Raglen Eiddilwch Gwent ar draws cynghorau, gyda chymorth adroddiadau perfformiad dangosfwrdd Rhaglen Eiddilwch Gwent, fydd hefyd yn cynorthwyo â gwaith craffu gan y Bwrdd Iechyd. |
| **C3** | Cytuno ar feini prawf at gyfer atgyfeirio a derbyn gan Raglen Eiddilwch Gwent er mwyn targedu gwasanaethau'n fwy manwl cywir ar y grŵp defnyddwyr bwriadedig. Ymgysylltu ag ymarferwyr cyffredinol a chlinigwyr ysbytai i sicrhau nad yw neb yn osgoi'r systemau atgyfeirio a bod atgyfeiriadau i Raglen Eiddilwch Gwent yn briodol. Sicrhau cynaliadwyedd y Rhaglen yn y tymor canolig a'r tymor hir, cael darlun clir o oblygiadau'r meini prawf, gan gynnwys proffilio; y galw yn y dyfodol, costau fesul uned a chyfanswm costau; derbyniadau i ysbytai, nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai, a diwrnodau gwely; gwireddu buddion; a risgiau. |
| **C4** | Mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adolygiad o flwyddyn gyntaf gweithredu un man mynediad Rhaglen Eiddilwch Gwent, gan gynnwys: cydymffurfiaeth â gweithdrefnau atgyfeirio; gwella: y ffordd mae'r un man mynediad yn gweithio; trin galwadau; mynediad i gofnodion; prosesu gwybodaeth; a hefyd hyfforddiant a datblygu i staff y Tîm Adnoddau Cymunedol a'r un man mynediad yn ogystal â rhai sy'n atgyfeirio. |
| **C5** | Mapio cynlluniau ariannol ac amcanestyniadau galw y tu hwnt i'r cynllun tair blynedd cychwynnol ar gyfer Rhaglen Eiddilwch Gwent, i sicrhau ei bod yn gynaliadwy. |
| **C6** | Gwneud adolygiad o Raglen Eiddilwch Gwent a Thimau Adnoddau Cymunedol wrth eu gwaith, a ragwelir ar gyfer diwedd y flwyddyn gyntaf, i werthuso effeithiolrwydd y dulliau gwahanol o gyflenwi'r gwasanaeth a chanfod effaith yr amrywiadau mewn gwasanaethau o fewn Raglen Eiddilwch Gwent ar y Rhaglen a'i defnyddwyr, a'r problemau a'r cyfyngiadau yn y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, gan gynnwys gweithio saith diwrnod yr wythnos a'r tu allan i oriau. |
| **C7** | Gwneud adolygiad sylfaenol o'r rhaglen TG sydd wedi'i bwriadu i gynorthwyo â gweithredu Rhaglen Eiddilwch Gwent, gan gynnwys materion fel: caledwedd; meddalwedd; integreiddio systemau; cipio data; adrodd; cwmpas y prosiect; a chynnydd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk